



Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol

Ymateb Llywodraeth Cymru

25/11/2024

Ym mis Hydref 2024, cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol yn dilyn ymchwiliad. Mae'r adroddiad yn cynnwys 18 o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Ymateb i'r 18 o argymhellion.....	4
Argymhelliad 1	4
Argymhelliad 2	4
Argymhelliad 3	4
Argymhelliad 4.....	6
Argymhelliad 5.....	6
Argymhelliad 6.....	7
Argymhelliad 7	8
Argymhelliad 8.....	10
Argymhelliad 9.....	10
Argymhelliad 10.....	11
Argymhelliad 11	11
Argymhelliad 12	11
Argymhelliad 13	12
Argymhelliad 14.....	13
Argymhelliad 15	13
Argymhelliad 16	14
Argymhelliad 17	15
Argymhelliad 18.....	15

1. Cyflwyniad

Ers dechrau'r Ymchwiliad hwn, mae Llywodraeth y DU wedi newid yn sgil etholiad cyffredinol y DU. Mae hyn wedi rhoi cyfle i ail-lunio cysylltiadau a dechrau cyfnod newydd o bartneriaeth, gyda dwy lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd ar weledigaeth a rennir i Gymru. Fel man cychwyn ar gyfer y bartneriaeth hon, rhaid cael cysylltiadau rhynglywodraethol sy'n seiliedig ar gyd-barch ac ymrwymiad i unioni ac estyn datganoli.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu o hyd y gall yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y cytunwyd arno ym mis Ionawr 2022, roi'r peirianwaith sydd ei angen i ddwyn llywodraethau'r DU ynghyd – i drafod y pethau cywir, ar yr adegau cywir.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth newydd y DU ac ymateb i'r heriau lu y mae Cymru a gweddill y DU yn eu hwynebu.

Gyda ffocws ar y cyd ar adnewyddu gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau twf economaidd parhaus a chyflymu'r broses o sicrhau sero net, drwy ddull gweithredu newydd sy'n cefnogi potensial twf gwyrdd Cymru, gellir dileu rhwystrau, er mwyn datgloi cyfleoedd mwy uchelgeisiol, i greu cymdeithas decach.

Hoffai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu hadroddiad ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol. Mae wedi nodi ei ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

2. Ymateb i'r 18 o argymhellion

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Trysorlys, fel mater o egwyddor, wahaniaethu rhwng llywodraethau datganoledig ac adrannau Llywodraeth y DU wrth wneud dyraniadau cyllid ac wrth rannu gwybodaeth gyllidol cyn cyhoeddiadau, fel ffordd o barchu realiti cyfansoddiadol y DU a fyddai'n cryfhau cysylltiadau rhynglywodraethol ac yn gwneud prosesau'n fwy effeithiol a thryloyw.

Ymateb:

Argymhelliad i Drysorlys EF yw hwn.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i ddatblygu cynigion deddfwriaethol, gan ymgynghori â'r llywodraethau a'r seneddau datganoledig, i roi cysylltiadau rhynglywodraethol ar sail statudol, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Ymateb: Derbyn.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, gan nodi y byddai seiliau statudol i gysylltiadau rhynglywodraethol yn gam pwysig i fynd i'r afael â natur fregus ac amrywiol y trefniadau presennol. Mater i'r pedair gwlad ydyw, wrth reswm, a bydd angen ei drafod â Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU. Fel cam cyntaf, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth newydd y DU i unioni a chryfhau datganoli ac adnewyddu cysylltiadau rhynglywodraethol. Roedd yn bleser gan y Prif Weinidog fod yng nghyfarfod cyntaf Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau ym mis Hydref, ac mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid i greu cyfleoedd newydd er budd Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfan.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn dilyn y newidiadau a ganlyn:

- sicrhau mai'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yw'r llwyfan mwyaf priodol i'r Trysorlys rannu gwybodaeth ariannol i'r llywodraethau datganoledig, yn gyfrinachol os oes angen, cyn cyhoeddiadau cyllidol;
- datblygu rheolau a phrosesau'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn ac i leihau'r disgresiwn a roddir ar hyn o bryd i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ei ffyrdd o weithio;
- cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar gyfer y flwyddyn i ddod â gweinidogion cyllid o'r llywodraethau datganoledig mewn modd amserol; a
- rhoi diweddariadau i'r Pwyllgor ar gynnydd yn y meysydd hyn.

Ymateb: Derbyn.

Mae cylch gorchwyl y¹ Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cynnwys 'consideration of emerging economy and finance issues and longer-term challenges that affect all governments, where collaboration and sharing of information supports planning, policy development and decision-making'. Er mai'r pwyllgor hwn yw'r llwyfan mwyaf priodol i Drysorlys EF rannu gwybodaeth ariannol i'r llywodraethau datganoledig, yn gyfrinachol, os bydd angen, nid yw bob amser yn ymarferol bosibl trefnu dyddiadau cyfarfodydd i gyd-daro â rhyddhau'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, ceir cyfleuster i drefnu cyfarfodydd eithriadol, sydd wedi cael ei ddefnyddio. Gall gwybodaeth hefyd gael ei darparu mewn ffordd gydgysylltiedig ar sail ddwyochrog.

Cynhelir adolygiad rheolaidd o'r cylch gorchwyl bob 18 mis er mwyn sicrhau bod y rheolau a'r prosesau yn ddigon cadarn. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i holi ynghylch rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau a bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn codi'r mater hwn eto pan fydd yn cynnal y pwyllgor ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Fel y'i nodwyd yn y cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn hysbysu'r Pwyllgor Cyllid cyn dyddiadau ac agendâu dyddiadau'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, ac yn rhoi diweddariad ar drafodaethau. Fel y gwnaeth rhagflaenydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y tro diwethaf i'r cylch gorchwyl gael ei adolygu, bydd hefyd yn rhoi diweddariad i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

¹ Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - GOV.UK

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i eirioli dros fecanwaith cyllido sy'n seiliedig ar anghenion i sicrhau cyllid tecach i Gymru, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gyson o blaid dyrannu adnoddau yn y DU ar sail angen cymharol. Fel y'i nodwyd yn 'Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU' (Mehefin 2021), mae Llywodraeth Cymru yn cynnig mai corff cyhoeddus annibynnol sy'n atebol i bob un o'r pedair gweinyddiaeth ar y cyd ddylai fod yn gyfrifol am y ffordd y gweithredir y trefniadau adnoddau datganoledig, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch grym gwario a therfynau benthyca'r llywodraethau datganoledig. Byddai hyn yn sicrhau dilysrwydd y fframwaith cyllidol ledled y DU.

Dylai grym gwario'r llywodraethau datganoledig gael ei bennu, ar ôl rhoi sylw i lefelau gwario arfaethedig i Loegr, drwy gyfeirio at set o ddangosyddion gwrthrychol y cytunwyd arnynt ynglŷn ag angen cymharol, fel y bydd grym gwario yn deg ymhlith y gwahanol lywodraethau ac y gall nwyddau cyhoeddus o'r un lefel ac ansawdd gael eu darparu ym mhob rhan o'r DU.

Ni ddylai fod modd i Lywodraeth y DU ddyrannu cyllid ychwanegol ar fympwy i unrhyw ran benodol o'r DU y tu allan i'r trefniadau hyn, na chreu rhaglenni gwariant newydd i'r DU gyfan mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli heb gydsyniad y priod lywodraethau datganoledig.

Dylid cael gwared ar fformiwla Barnett, a system newydd sy'n seiliedig ar angen cymharol, a roddir ar waith o fewn fframwaith cyllidol cynhwysfawr a chyson y mae pob un o lywodraethau'r DU wedi cytuno iddo.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol. Pe bai dull cyllido sy'n seiliedig ar angen yn cael ei gyflwyno, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyllid y mae Cymru yn ei gael ostwng.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn pwysu ar Lywodraeth y DU i gymryd camau i sicrhau:

- bod dyddiadau ar gyfer digwyddiadau cyllidol y DU yn cael eu cyhoeddi ymhell ymlaen llaw i alluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio ei chyllideb yn fwy effeithiol; a

- bod Llywodraeth y DU yn rhoi mwy o ystyriaeth i amserlen gyllidebol y Senedd wrth gynllunio digwyddiadau cyllidol y DU, ac wrth wneud datganiadau ar fyr rybudd y tu hwnt i ddigwyddiadau cyllidol y DU a gynlluniwyd; bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor am gynnydd yn y meysydd hyn.

Ymateb: Derbyn.

Er mai mater i Lywodraeth y DU yw amseriad digwyddiadau cyllidol y DU, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i danlinellu pwysigrwydd rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i'r llywodraethau datganoledig ynglŷn ag amseriad digwyddiadau cyllidol y DU, o ystyried effaith hyn ar eu priod brosesau a gweithdrefnau cynllunio cyllidebol, gan gynnwys effaith ar amser craffu eu priod ddeddfwrfeydd.

Gall amseriad digwyddiadau o'r fath achosi heriau i Lywodraeth Cymru fel y'i gwelwyd yn achos Cyllideb Gwanwyn y DU (6 Mawrth 2024) a ddigwyddodd ddiwrnod ar ôl i Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chymeradwyo gan y Senedd (5 Mawrth 2024).

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysu'n gyson ar Lywodraeth y DU am amserlen gliriach a mwy rhagweladwy ar gyfer ei digwyddiadau cyllidol drwy'r sianeli priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a chyfarfodydd dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Ym mis Gorffennaf, cadarnhaodd y Canghellor y bydd un digwyddiad cyllidol i'r DU bob blwyddyn o hyn ymlaen ac y byddai'n dychwelyd at raglen dreigl o setliadau gwariant amflwydd a fydd yn rhoi sefydlogrwydd o ran arian cyhoeddus a sicrwydd mawr ei angen i bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio'r sianeli priodol i sicrhau bod Trysorlys EF yn ymwybodol o oblygiadau amseriad digwyddiadau cyllidol y DU ar broses gyllidebol Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn pwysu ar Lywodraeth y DU i gymryd camau i sicrhau:

- bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n fwy ag Adolygiadau o Wariant y DU ac yn dylanwadu arnynt; a
- bod adolygiadau o wariant dros sawl blwyddyn yn cael eu cyflwyno fel mater o drefn, i roi mwy o sicrwydd i Lywodraeth Cymru ynghylch cyllid yn

gynharach; bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor am gynnydd yn y meysydd hyn.

Ymateb: Derbyn.

Fel y'i hamlinellwyd yn yr ymateb i argymhelliad 5, mater i Lywodraeth y DU yw amseriad digwyddiadau cyllidol y DU. Un o'r camau cyntaf a gymerwyd gan y Canghellor oedd cadarnhau y bydd yn mabwysiadu dull treigl o gynnal adolygiadau o wariant yn y dyfodol lle y bydd Llywodraeth y DU yn adolygu ei chynlluniau gwariant bob dwy flynedd er mwyn sicrhau na fydd setliadau blynyddol yn wynebu sefyllfa anadferadwy yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu wrth gynllunio cyllidebau Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad o wariant presennol yn digwydd mewn dau gam. Cwblhawyd cam 1 yng Nghyllideb Hydref y DU, a roddodd setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Mae Llywodraeth newydd y DU wedi bod yn barod i wrando ar y llywodraethau datganoledig ac ymgysylltu â nhw. Dangoswyd hyn drwy rannu gwybodaeth yn gynharach a chynnydd sylweddol mewn gwariant cyhoeddus a buddsoddiad cyfalaf yng nghyllideb y DU. Gwnaeth cyllideb y DU hefyd gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddsoddiad o £25m ar gyfer diogelwch tomenni glo, ymrwymiad i neilltuo £80m i gefnogi gwaith Bwrdd Pontio Tata Steel a chwblhau cam nesaf y Porth Rhydd Celtaidd.

Hefyd, bu ymgysylltu cadarnhaol ar gam cynnar rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â datblygu Strategaeth Ddiwydiannol i'r DU gyfan, cynllun 10 mlynedd sydd â'r nod o annog twf a chreu swyddi drwy roi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd sydd eu hangen ar fusnesau i fuddsoddi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU wrth i gynlluniau ar gyfer cam 2 o'r Adolygiad o Wariant fynd rhagddynt. Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â sicrhau hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol, buddsoddiad teg ar gyfer y rheilffyrdd a sefydlu'r fframwaith ariannol ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli cronfeydd yr UE ar ôl 2026, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyllid Ffyniant Bro. Bydd adolygiad llawn o Ddatganiad o Bolisi Ariannu'r DU hefyd yn cael ei gynnal yn ystod cam 2 o Adolygiad o Wariant y DU a fydd yn dod i ben ar ddiwedd y gwanwyn. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn galw bod cyhoeddiadau cyllido blynyddol ac yn ystod y flwyddyn gan y Trysorlys:

- yn fwy rheolaidd; a bod gwybodaeth sy'n effeithio ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer trethiant a chyllidebau yn cael ei rhannu cyn digwyddiadau cyllidol y DU yn gyfrinachol;
- yn fwy tryloyw o ran a ydynt yn cael eu cyllido gan ddefnyddio arian newydd neu drwy ymarferion arbed neu ailflaenoriaethu a gynhelir gan adrannau Llywodraeth y DU i'w gwneud yn bosibl cyfrifo cyllid canlyniadol Barnett; a
- bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor am gynnydd yn y meysydd hyn.

Ymateb: Derbyn.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn deall unrhyw newidiadau yn ystod digwyddiadau cyllidol y DU i'w chyllidebau a'i threthi a gedwir yn ôl neu'r trethi sy'n cyfateb i'w threthi datganoledig mor gynnar â phosibl, fel y gall ystyried y goblygiadau i'w chyllideb a'r dirwedd dreth yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gyson o blaid rhannu gwybodaeth sy'n effeithio ar bolisi trethi a chyllidebol Llywodraeth Cymru cyn digwyddiadau cyllideb y DU yn gynt ac yn fwy rheolaidd. Cyn Cyllideb y DU, cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg â'r Prif Ysgrifennydd ochr yn ochr â Gweinidogion Cyllid y DU yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 3 Hydref ac ar wahân mewn cyfarfod dwyochrog i drafod materion a oedd yn benodol i Gymru. Hefyd, cawsant alwad ffôn fyr ar fore'r Gyllideb.

Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi cadarnhau ei fod wedi ceisio rhoi gwybodaeth am y newidiadau posibl i gyllideb Llywodraeth Cymru lawer yn gynt nag sydd wedi digwydd yn ddiweddar ac mae newidiadau i setliad Llywodraeth Cymru wedi cael eu cadarnhau hyd y gellir yng Nghyllideb yr Hydref.

Mae eglurder ynghylch a yw cyhoeddiadau Llywodraeth y DU yn cael eu hariannu drwy arian newydd neu drwy arian a gyhoeddwyd eisoes yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gael deall y goblygiadau i'w chyllideb yn llawn. Mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru gydberthynas waith dda â swyddogion Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn bosibl i wybodaeth gael ei rhannu'n amserol yn hyn o beth, ond mae natur trefniadau Cyllideb y DU yn golygu nad yw bob amser yn amlwg tan yn ddiweddarach yn y broses a fydd rhai mentrau yn cael eu hariannu drwy arian newydd o'r cyllidebau presennol.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid ar gynnydd yn y meysydd hyn drwy'r ymgysylltu arferol.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cymryd camau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu dogfennau'r Datganiad o Bolisi Ariannu yn y dyfodol i liniaru problemau o ran categoraiddio prosiectau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Dogfen a gyhoeddir gan Drysorlys EF yw'r Datganiad o Bolisi Ariannu (SoFP)². Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio'r sianeli priodol i annog ymgysylltu ac yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiad y polisi.

Cyhoeddwyd atodiad i'r SoFP ochr yn ochr â Chyllideb y DU ar 30 Hydref. Roedd yr atodiad yn ddiweddariad ffeithiol a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau ers i'r Datganiad o Bolisi Ariannu diwethaf gael ei gyhoeddi. Cyn i'r atodiad hwn gael ei gyhoeddi, cynhaliwyd cyfarfod o swyddogion i'w drafod a rhannwyd drafft ymlaen llaw er mwyn i'r llywodraethau datganoledig wneud sylwadau arno.

Bydd adolygiad llawn o'r Datganiad o Bolisi Ariannu yn cael ei gynnal fel rhan o gam 2 o'r Adolygiad o Wariant. Mae Trysorlys EF wedi ceisio barn Llywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yn sefydlu gweithgor gyda'r llywodraethau datganoledig yn fuan er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Fel y'i hamlinellwyd yn argymhelliad 9, mae Trysorlys EF yn cynnwys atodlen cymharedd yn y Datganiad o Bolisi Ariannu. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i gael trafodaethau â Llywodraeth y DU ar fater cyllid a buddsoddiad ar gyfer y rheilffyrdd. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau dull teg o gymhwyso fformiwla Barnett, ac fel rhan o hyn, byddai'n croesawu adolygiad o gymharedd â'r Adran Drafnidiaeth a phroses Llif Gwella'r Rhwydwaith Rheilffyrdd.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn galw ar y Trysorlys i gyhoeddi gwaith manwl ochr yn ochr â'i gyhoeddiadau cyllido i wella tryloywder ynghylch cyllid datganoledig a chategoreiddio prosiectau, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar sail egwyddorion clir, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Ymateb: Derbyn.

² [Statement_of_Funding_Policy_addendum.pdf](#)

Mae Trysorlys EF yn cynnwys dadansoddiad o newidiadau cyllido yn ei dogfen ar Dryloywder y Grant Bloc, a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2023. Byddai mwy o dryloywder pe bai'r ddogfen hon yn cael ei diweddarau mewn ffordd fwy rheolaidd ac amserol. Mae Trysorlys EF hefyd yn cynnwys atodlen cymharedd yn y Datganiad o Bolisi Ariannu ar gyfer y DU, sy'n dangos sut mae'r ffactor cymharedd ar gyfer pob un o adrannau Llywodraeth y DU yn cael ei ddeillio. Diweddarwyd yr atodlen cymharedd yn yr atodiad i'r Datganiad o Bolisi Ariannu ar gyfer y DU a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Hydref 2024 Llywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn pwysu ar y Trysorlys i ddarparu tystiolaeth gredadwy ar gyfer defnyddio'r Gronfa Ganolog pan fydd hyn yn arwain at ganlyniadau cyllid sy'n osgoi fformiwla Barnett, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r Datganiad o Bolisi Ariannu ar gyfer y DU (Tachwedd 2023) yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â Chronfa'r DU ym mharagraffau 8.7 ac 8.11. Yn gyffredinol, caiff hawliadau i Gronfa'r DU gan y llywodraethau datganoledig eu barnu drwy ddefnyddio'r un meini prawf ag a ddefnyddir ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU. Ni chaiff fformiwla Barnett ei chymhwyso'n awtomatig at hawliadau o dan y Gronfa gan adrannau Llywodraeth y DU, ond gall fformiwla Barnett fod yn gymwys os bernir bod y llywodraethau datganoledig yn wynebu pwysau cymaradwy. Fel y'i nodir uchod, ac yn gyson â 'Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU' (Mehefin 2021), ym marn Llywodraeth Cymru, ni ddylai fod modd i Lywodraeth y DU ddyrannu cyllid ychwanegol ar fymrwyl i unrhyw ran benodol o'r DU y tu allan i'r trefniadau arferol.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu gwarant gyllido sy'n debyg i warant Barnett a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid i roi rhywfaint o sicrwydd ynghylch cyllid datganoledig sydd ar gael, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu newid cyllid cyfalaf i gyllid adnoddau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru reoli'r cynnydd mewn cyllid a gadarnheir ar ôl digwyddiad cyllidol yn yr hydref ar draws blynyddoedd ariannol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Ymateb Grŵp i Argymhellion 11-13: Derbyn.

Mae'r hyblygrwydd cyllidebol cyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn cyfyngu ar ei gallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n codi ac yn achosi sawl her, gan gynnwys ei gwneud yn anodd defnyddio dyraniadau annisgwyl mawr cyn diwedd y flwyddyn ariannol mewn ffyrdd sy'n sicrhau gwerth mwyaf am arian, a rheoli toriadau annisgwyl, sy'n ei gadael yn ddibynnol ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU ac yn agored i effaith amseriad y penderfyniadau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn pwysu ar Lywodraeth y DU i roi mwy o hyblygrwydd cyllidol nag sydd ar gael ar hyn o bryd ac, ynghyd â'r llywodraethau datganoledig eraill, mae'n ceisio datblygu cynigion a fydd yn gwella trefniadau i reoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ateb yn debyg i Warant COVID wrth wneud penderfyniadau a all gynnwys dyrannu symiau sylweddol o arian yn ystod y flwyddyn, a hyblygrwydd llawn i newid cyllid o gyfalaf i adnoddau neu gario unrhyw gyllid ychwanegol neu ostyngiadau ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf, pan gyhoeddir cyllid ar ôl digwyddiad cyllidol yn yr hydref.

Nid yw'r broses bresennol o newid cyllid o gyfalaf i adnoddau yn ystyried anghenion penodol llywodraethau datganoledig. Mae angen rhoi proses ar waith sy'n briodol i ddiwallu anghenion y llywodraethau datganoledig ac sy'n parchu rolau'r seneddau datganoledig.

Ni fyddai angen y dulliau hyn pe bai Llywodraeth Cymru yn cael digon o hyblygrwydd cyllidebol i reoli ei hadnoddau ei hun. Drwy gael gwared ar yr holl gyfyngiadau ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei chyllideb byddai hynny yn golygu bod modd i Lywodraeth Cymru gael ei grant bloc bob blwyddyn heb gyfyngiadau ar gario cyllid ymlaen neu ddefnyddio arbedion blaenorol. Gallai hefyd olygu rhyddid i newid cyllid rhwng cyllidebau cyfalaf ac adnoddau.

Mae sicrhau bod y llywodraethau datganoledig yn cael hyblygrwydd cyllidebol priodol wedi cael ei godi yn ystod cyfarfodydd diweddar y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a bydd yn cael ei drafod eto yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid ar gynnydd yn y meysydd hyn.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn galw ar Lywodraeth y DU i estyn y cwmpas i lywodraethau datganoledig godi anghydfod cyllido, o ystyried na ellir codi anghydfodau o'r fath oni bai bod egwyddor o'r Datganiad o Bolisi Ariannu wedi' thorri, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Ymateb: Derbyn.

Sefydlodd yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar y cyd strwythurau a phrosesau i sicrhau ymgysylltu ystyrllon a dull gweithredu sy'n cadarnhau hawl pob llywodraeth i gyfeirio ac uwchgyfeirio anghydfod.

Wrth adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn 2023, cafodd y dull o ymdrin ag anghydfodau ei gryfhau a rhoddwyd eglurder ynglŷn â'r broses o benodi cadeirydd annibynnol os bydd anghydfod yn codi a'r amserlen ar gyfer cyfarfod Gweinidogol, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag anghydfodau yn amserol.

Bwriedir adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid unwaith eto yn y gwanwyn a bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei godi fel rhan o'r adolygiad. Bydd y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw gynnydd.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i adolygu fframwaith cyllidol Cymru ac y dylid diwygio'r fframwaith yn unol â fframwaith cyllidol yr Alban, gan gynnwys:

- cysylltu mynegeio terfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ôl chwyddiant;
- dileu terfynau tynnu arian wrth gefn i lawr;
- cynyddu'r terfynau benthyca cyfalaf; a
- bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny.

Ymateb: Derbyn.

Cydnabu Maniffesto Llafur y DU nad yw Fframwaith Cyllidol Cymru yn gyfredol mwyach. Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau ers amser hir y dylai adnoddau gael eu dyrannu ledled y DU ar sail angen cymharol, fel y'i nodwyd yn Diwygio ein Hundeb; fodd bynnag, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn y byrdymor yw sicrhau bod y trefniadau cyllido presennol yn cyflawni dros Gymru.

Mae'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi cynnal cyfres o drafodaethau cydweithredol â Gweinidogion y DU, lle maent wedi pwysu ar Lywodraeth y DU i gytuno i ddiweddarau terfynau benthycu a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru o brisiau 2018-19 i brisiau 2024-25, yn unol â datchwyddyddion cynnyrch domestig gros y Gyllideb ddiweddaraf, ac yna fynegeio'r rhain yn unol â chwyddiant, a diddymu terfyn blynyddol Llywodraeth Cymru ar hawlio cronfeydd wrth gefn. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn codi'r materion hyn ymhellach mewn cyfarfodydd dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r newidiadau hyn, mae yna ddadl dda hefyd dros gynyddu eto y terfynau blynyddol a chyfunol ar fynediad i fenthycu cyfalaf, er mwyn iddynt fod yn unol â chwyddiant o leiaf, gyda'r nod o roi digon o hyblygrwydd i'w gwneud yn bosibl i'r gyllideb gael ei rheoli'n ddoeth o un flwyddyn ariannol i'r llall, er mwyn sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl ar gael i Lywodraeth Cymru.

Cododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fater ehangach dyraniadau hwyr gan Lywodraeth y DU a hyblygrwydd cyllidebol ar ddiwedd y flwyddyn ochr yn ochr â Gweinidogion Cyllid o'r Alban a Gogledd Iwerddon yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn Belfast ar 3 Hydref. Bydd hyn yn rhan o raglen waith ehangach a chaiff ei ystyried fel eitem barhaol yng nghyfarfodydd y pwyllgor hwnnw yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i adolygu'r broses ar gyfer cytuno ar bwerau trethu datganoledig newydd, fel yr amlinellir yn adran 116C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd) ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

Ymateb: Derbynn.

Trafododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddatganoli'r pwerau i gyflwyno treth tir gwag yng Nghymru ag Ysgrifennydd Siecr y Trysorlys pan gyfarfuont ym mis Medi. Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sut roedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio bwrw ymlaen â hyn drwy'r broses y cytunwyd arni, ond bod Llywodraeth flaenorol y DU wedi atal y broses yn unochrog am gyfnod amhenodol. Ers hynny mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Siecr y Trysorlys i ailgydio yn eu trafodaeth a rhannu'r dogfennau ategol yn unol â'r broses y cytunwyd arni gyda'r disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru bellach yn gallu bwrw ymlaen â'r

mater hwn. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hyn gyda'r bwriad o godi'r achos dros adolygu'r broses eto, unwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gliriach ynglŷn â hynt y broses o sicrhau bod pwerau treth tir gwag yn cael eu datganoli.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 17

Yn amodol ar argymhelliad 16, os nad yw Llywodraeth y DU yn fodlon adolygu'r broses ar gyfer cytuno ar bwerau trethu datganoledig newydd, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r mecanwaith datrys anghydfodau i fwrw ymlaen â'r dreth ar dir gwag, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw gynnydd a wneir, ac yn darparu esboniad os na chaiff ei dilyn.

Ymateb: Derbyn.

Ymhellach i'r ymateb i argymhelliad 16, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y broses o sicrhau bod pwerau treth tir gwag yn cael eu datganoli ac unrhyw adolygiad canlyniadol o'r broses lle y bo'n briodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad o fewn yr adnoddau presennol.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Trysorlys yn gwella ei ymgysylltiad â phwyllgorau cyllid y deddfwrfeydd datganoledig, yn unigol a thrwy Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, gyda'r golwg ar gynyddu deialog ffurfiol ac anffurfiol ar faterion cyllidol sy'n ymwneud â datganoli.

Ymateb:

Argymhelliad i Drysorlys EF ymateb iddo yw hwn.

Goblygiadau Ariannol: Dim.